



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Datblygu a Ganiateir

Diwygiadau i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu  
Cyffredinol a Ganiateir) 1995

Dyddiad cyhoeddi: 16 Tachwedd 2021  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 15 Chwefror 2022

This document is also available in English.  
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys cynigion i ddiwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiadau Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd).

## Sut i ymateb

Mae set o gwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori yr hoffai Llywodraeth Cymru glywed eich barn yn eu cylch.

Mae croeso ichi ymateb yn Gymraeg neu yn Saesneg a dylech anfon eich ymatebion drwy e-bost neu drwy'r post erbyn **15 Chwefror 2022** fan bellaf.

Gallwch ymateb mewn unrhyw un o'r ffyrdd isod:

### Ar-lein:

Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein yn y ddolen ganlynol:

<https://www.smartsurvey.co.uk/s/5RJZZK/?lang=615410>.

### E-bost:

Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon a'i hanfon drwy e-bost at [planconsultations-e@llyw.cymru](mailto:planconsultations-e@llyw.cymru).

(dylech roi 'Ymgynghoriad ar Ddatblygu a Ganiateir' yn y llinell pwnc)

### Drwy'r post:

Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon a'i phostio at:

Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd,  
CF10 3NQ

**Rhagor o  
wybodaeth a  
dogfennau  
Cysylltiedig**

**Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fersiynau print  
bras, Braille ac ieithoedd eraill ar gais.**

**Manylion Cyswilt** I gael rhagor o wybodaeth:

Drwy'r post:

Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd,  
CF10 3NQ

E-bost: [planconsultations-e@llyw.cymru](mailto:planconsultations-e@llyw.cymru)

**Mae'r  
ymgyngoriad  
hefyd ar gael yn  
Saesneg yn:**

[https://gov.wales/amendments-permitted-development-  
rights](https://gov.wales/amendments-permitted-development-rights)

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a roddir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hwn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw, neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru am ddadansoddi'r ymatebion ymhellach, efallai y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan drydydd parti achrededig (er enghraifft, sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan gcontract y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion llym ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion cyn cyhoeddi eich ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth. Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- gwybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'i weld
- gofyn inni gywiro gwallau yn y data hwnnw
- (o dan rai amgylchiadau) gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) gofyn i'ch data gael ei 'ddileu'
- (o dan rai amgylchiadau) gofyn inni drosglwyddo eich data i gorff arall
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r ffordd mae'n cael ei defnyddio, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:  
Y Swyddog Diogelu Data:  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

e-bost: [Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)



# Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad</b> .....	1
<b>2. Hawliau Datblygu a Ganiateir ar gyfer Adfer</b> .....	3
Defnydd tir dros dro ychwanegol.....	3
Cynnal marchnad.....	4
Defnyddiau dros dro (Canol Trefi).....	5
Defnyddiau lletygarwch – darparu cownter arlwyg awyr agored .....	8
Defnyddiau Lletygarwch – Adlenni.....	9
<b>3. COVID-19: Hawliau Datblygu a Ganiateir Brys</b> .....	10
Rhan 3A: Adeilad Dros Dro a Newidiadau i Ddefnydd at Ddibenion Brys lechyd y Cyhoedd.....	10
Rhan 12A: Datblygiad Brys gan Awdurdodau Lleol .....	11
<b>4. Tai Amfeddiannaeth</b> .....	13
<b>5. Gosod Arwyneb Caled</b> .....	15
<b>6. Gwefru Cerbydau Trydan</b> .....	16
<b>7. Ffliw Adar</b> .....	19
<b>8. Cyfarwyddiadau Erthygl 4</b> .....	20
<b>9. Ystyriaethau ynglŷn â'r Gymraeg</b> .....	23
<b>10. Ystyriaethau cyffredinol</b> .....	23
<b>Atodiad A</b> .....	24

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Datblygiad a ganiateir yw datblygiad y gellir ei wneud heb yr angen i wneud cais am ganiatâd cynllunio, oherwydd bod caniatâd eisoes wedi'i roi o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (y GDCG). Mae'r GDCG yn cynnwys 43 rhan sy'n rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer amrediad eang o ddatblygiadau ar draws llawer o sectorau gwahanol.
- 1.2 Er mwyn helpu busnesau i ailagor a chefnogi eu hymdrechion i greu amgylchedd diogel, gan alluogi'r cyhoedd i deimlo'n hyderus wrth ddychwelyd i'r stryd fawr, yn gynharach eleni llaciodd Llywodraeth Cymru reolaethau cynllunio ar gyfer datblygiadau penodedig, dros dro, drwy wneud diwygiadau i'r GDCG) (Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2021). Rhoddwyd rhagor o hyblygrwydd i newid defnydd yng nghanol trefi, am gyfnod dros dro, i annog busnesau i ddefnyddio unedau manwerthu gwag. Cynhaliwyd ymgynghoriad 14 diwrnod a oedd yn targedu Awdurdodau Cynllunio Lleol drwy Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad a Grwpiau Gweithredu Rhanbarthol ar Ganol Trefi, cyn i'r Gorchymyn gael ei wneud.
- 1.3 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn y cyhoedd a rhanddeiliaid ehangach ar yr hawliau datblygu a ganiateir hyn, gyda'r bwriad o'u gwneud yn ychwanegiadau parhaol at yr GDCG yn 2022.
- 1.4 Cyflwynwyd hawliau datblygu a ganiateir parhaol newydd hefyd ar gyfer cyrff y GIG (Rhan 3A o'r GDCG) ac awdurdodau lleol (Rhan 12A o'r GDCG) fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i'r Coronafeirws (COVID-19) yn 2020. Oherwydd bod angen yr hawliau datblygu a ganiateir hyn ar frys i gynorthwyo gyda'r ymateb i COVID-19, ar y pryd ni chynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyn i'r Gorchymynion perthnasol ddod i rym. Felly, gofynnir am farn rhanddeiliaid yn ôl-weithredol fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Dyma gyfle i roi adborth ar sut mae'r hawliau datblygu a ganiateir wedi cael eu defnyddio yn ymarferol.
- 1.5 Mae'r ymgynghoriad hefyd yn gwahodd sylwadau ar gynigion a oedd yn rhan o ymgynghoriad blaenorol a gyhoeddwyd yn 2018. Gofynnodd yr ymgynghoriad ['Cydgrynhoi ac Adolygu Is-ddeddfwriaeth'](#) ('ymgynghoriad 2018') am farn ynghylch cynigion i gydgrynhoi a gwneud diwygiadau dethol i'r GDCG. Gwnaed gorchymyn dros dro (Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2019) a oedd yn darparu ar gyfer cynigion ynghylch seilwaith gwefru cerbydau trydan, ynni adnewyddadwy a thelathrebu. Nid yw gweddill y cynigion o'r ymgynghoriad wedi cael eu datblygu eto. Mae'r cynigion sydd i'w cadw a'u datblygu wedi cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn.
- 1.6 Roedd Ymgynghoriad 2018 yn cynnwys cynigion i ddiwygio a chydgrynhoi Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd).
- 1.7 Bydd newidiadau cynhwysfawr i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd, yn enwedig i ddefnyddiau Dosbarth A a fyddai'n effeithio ar ganolfannau masnachol, yn cael

eu hystyried fel rhan o faes gwaith ehangach sy'n canolbwyntio ar adfer canol trefi yn dilyn COVID-19. Bydd unrhyw gynigion sy'n deillio o'r ffrwd waith hon yn destun ymgynghoriad yn y dyfodol. Er hynny, bydd y diwygiad arfaethedig i Ddosbarth Defnydd A2 i dynnu siopau betio er mwyn iddynt fod yn ddefnydd unigryw (C2), a'r digwyddiadau technegol i Ddosbarth Defnydd B (C14) yn cael eu datblygu cyn gynted ag y bo modd. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiynau perthnasol yn Ymgynghoriad 2018 yn cefnogi'r ddau ddiwygiad.

- 1.8 Yn olaf, cynigir rhoi rhagor o hyblygrwydd drwy hawliau datblygu a ganiateir i osod seilwaith gwefru cerbydau trydan, i gyfrannu at gyflawni Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan Llywodraeth Cymru.



## **2. Hawliau Datblygu a Ganiateir ar gyfer Adfer**

### Defnydd tir dros dro ychwanegol

- 2.1 Mae Dosbarth B yn Rhan 4 o Atodlen 2 i'r GDCG yn darparu ar gyfer defnyddio tir (ac eithrio adeiladau) dros dro am 28 diwrnod, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau ac amodau. Mae hyn yn cael ei leihau i 14 diwrnod ar gyfer defnyddiau penodedig, fel cynnal marchnad (gweler paragraff 2.9). Defnyddir yr hawliau datblygu a ganiateir hyn ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau gan gynnwys gwyliau, ffeiriau, marchnadoedd a gweithgareddau hamdden.
- 2.2 Mae Dosbarth A (defnydd tir dros dro ychwanegol yn ystod y cyfnod perthnasol) yn y Rhan 4A yn Atodlen 2 (a gyflwynwyd gan Orchymyn Diwygio 2021) yn caniatáu cyfnod ychwanegol o 28 diwrnod ar gyfer defnydd tir dros dro y caiff 14 diwrnod ohono fod ar gyfer cynnal marchnad neu at ddibenion rasio ceir modur a beiciau modur (gan gynnwys treialon cyflymder, ac ymarfer ar gyfer y gweithgareddau hyn) yn ystod y cyfnod sy'n dechrau ar 30 Ebrill 2021 ac yn dod i ben ar 3 Ionawr 2022. Caniateir darparu strwythurau symudol at ddibenion y defnydd hefyd. Ni chaniateir datblygiad i adeilad nac yng nghwrttil adeilad lle mae hefyd heneb gofrestredig. Ni chaniateir rhai mathau o ddatblygiad lle mae'r tir yng nghwrttil adeilad rhestredig, ar safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig neu mewn Parc Cenedlaethol.
- 2.3 Mae'r hawliau datblygu a ganiateir hyn wedi cael eu defnyddio ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau, gan gynnwys meysydd gwersylla, gwyliau, ffeiriau, priodasau, marchnadoedd a dibenion hamdden eraill.
- 2.4 Mae perchnogion tir yn gyfrifol am weithredu'r defnyddiau dros dro mewn ffyrdd sy'n lleihau tarfu ar drigolion lleol, ac mae gan awdurdodau lleol bwerau i ymyrryd pan fydd niwsansau statudol yn digwydd.

### **Cynnig**

- 2.5 Mae estyn yr amser a ganiateir ar gyfer defnyddiau tir dros dro wedi rhoi hwb gwerthfawr, gan ategu adfer economaidd yn y sectorau lletygarwch, hamdden a thwristiaeth.
- 2.6 Gyda chyfyngiadau ar deithio tramor, mae'r hawliau datblygu a ganiateir dros dro wedi bod yn arbennig o fuddiol o ran galluogi darparu capasiti ychwanegol ar gyfer meysydd gwersylla ac ehangu'r amrediad o ddarpariaethau i dwristiaid sydd ar gael i ddarparu ar gyfer y cynnydd yn nifer y bobl sy'n cael eu gwyliau yn y DU.
- 2.7 Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o achosion lle mae effeithiau cynllunio wedi codi o ganlyniad i rai defnyddiau dros dro. Fodd bynnag, mae cydbwysedd derbynol rhwng unrhyw effeithiau andwyol posibl sy'n deillio o ddefnyddiau o'r fath, sy'n cael eu lliniaru oherwydd natur dros dro y defnyddiau, a'r manteision economaidd ehangach.

2.8 Mae Llywodraeth Cymru am ddeall manteision cadw'r diwrnodau ychwanegol ar gyfer defnydd dros dro a chael dealltwriaeth well o'r effeithiau. Ceisir barn hefyd ar y mesurau lliniaru arfaethedig pe baent yn cael eu gwneud yn barhaol.

**C.1 A ddylid cadw'r diwrnodau ychwanegol a roddwyd gan Ddosbarth A yn Rhan 4A yn barhaol, gan ganiatáu defnyddiau dros dro am hyd at 56 diwrnod (28 diwrnod at ddibenion penodedig) mewn blwyddyn galendr?**

**C.2 A oes gennych unrhyw dystiolaeth ynghylch unrhyw fanteision ac effeithiau o ganlyniad i gyflwyno'r diwrnodau ychwanegol ar gyfer defnyddiau dros dro ers mis Ebrill? Os oes, rhowch fanylion.**

**C.3 A oes gennych farn ynghylch a ddylid cyflwyno cyfyngiadau ychwanegol ar ddefnyddio'r hawl datblygu a ganiateir hon i liniaru effeithiau posibl gwneud hyn yn barhaol? Os oes, rhowch fanylion.**

### Cynnal marchnad

- 2.9 Cyn y pandemig, roedd Dosbarth B y Rhan 4 o Atodlen 2 i'r GDCG yn darparu ar gyfer defnyddio tir (ac eithrio adeiladau) i gynnal marchnad am gyfnod dros dro o 14 diwrnod. Cyflwynwyd Dosbarth A yn Rhan 4A i ganiatáu 14 diwrnod ychwanegol, am gyfnod dros dro, tan 3 Ionawr 2022. Defnyddir yr hawliau datblygu a ganiateir hyn gan y sector preifat, y trydydd sector a'r cyhoedd ehangach i gynnal marchnadoedd, gan gynnwys gwerthiannau cist car, ffeiriau a gwyliau bwyd.
- 2.10 Er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol yn eu hymdrechion i gefnogi busnesau yn dilyn llacio cyfyngiadau COVID-19, cyflwynwyd hawliau datblygu a ganiateir (Dosbarth B yn Rhan 4A) sy'n caniatáu i awdurdodau lleol ddefnyddio tir (ac eithrio o fewn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig) am gyfnod diderfyn i gynnal marchnad. Caniateir hefyd godi strwythurau symudol dros dro, megis stondinau neu adlenni, i hwyluso'r defnydd.
- 2.11 Mae 'cymal machlud' yn berthnasol sy'n golygu bod y diwrnodau ychwanegol y darperir ar eu cyfer gan Ddosbarthiadau A a B yn Rhan 4A yn dod i ben ar 3 Ionawr 2022. Ar ôl y cyfnod hwn, dim ond Dosbarth B yn Rhan 4 y caiff awdurdodau lleol ei ddefnyddio, sy'n caniatáu defnyddio tir dros dro i gynnal marchnad am hyd at 14 diwrnod y flwyddyn.

### **Cynnig**

- 2.12 Mae marchnadoedd dros dro yn rhoi cyfle cost isel i fasnachwyr bach a busnesau newydd werthu eu nwyddau, cyfleoedd posibl i grwpiau trydydd sector a chymunedol godi arian yn ogystal â manteision economaidd/twristiaeth canlyniadol i'r lleoliad sy'n eu cynnal. Fodd bynnag, mae'n bosibl bydd y manteision hyn yn gwrthdaro ag effeithiau cynllunio dros dro fel sŵn, rhagor o draffig a tharfu ar amwynder ardaloedd preswyl.

2.13 Er hynny, byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu eich barn ynghylch a yw'r hawliau datblygu a ganiateir presennol yn rhoi digon o hyblygrwydd i gynnal marchnadoedd. Gwahoddir eich barn ynghylch a ddylid ymestyn y cyfyngiad presennol o 14 diwrnod o dan Ddosbarth B yn Rhan 4.

**C.4** A ddylid estyn nifer y diwrnodau ar gyfer cynnal marchnad yn gyffredinol? Os dylid, beth yw nifer derbyniol o ddyddiau ar gyfer cynnal marchnad? Pa amodau ddylai fod yn berthnasol i reoli'r effeithiau ar gynllunio?

**C.5** A ddylid rhoi unrhyw ddiwrnodau ychwanegol dros y 14 diwrnod a ganiateir ar gyfer marchnadoedd a weithredir gan neu ar ran awdurdod lleol?

#### Defnyddiau dros dro (Canol Trefi)

2.14 Yng ngoleuni'r pwysau sylweddol ar ddefnyddio canol trefi, cyflwynodd Llywodraeth Cymru hawliau datblygu a ganiateir newydd i newid defnydd yng nghanol trefi i roi rhywfaint o amser i landlordiaid a busnesau i dreialu newidiadau i ddefnydd sy'n debygol o arwain at effeithiau cynllunio am gyfnod byr. Mae'r newidiadau a ganiateir fel a ganlyn:

Rhan 4A	Defnydd Presennol (yng nghanol trefi yn unig)	Y Newid a Ganiateir
Dosbarth C	Dosbarth Defnydd A1 (siopau)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• A2 (gwasanaethau ariannol a phroffesiynol);</li> <li>• A3 (bwyd a diod);</li> <li>• B1 (busnes);</li> <li>• D1 (sefydliadau amhreswyl);</li> <li>• D2 (ymgynnull a hamdden).</li> </ul>
Dosbarth D	Dosbarth Defnydd A2 (gwasanaethau ariannol a phroffesiynol)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• A1 (siopau);</li> <li>• A3 (bwyd a diod);</li> <li>• B1 (busnes);</li> <li>• D1 (sefydliadau amhreswyl);</li> <li>• D2 (ymgynnull a hamdden).</li> </ul>
Dosbarth E	Dosbarth Defnydd A3 (bwyd a diod)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• A1 (siopau);</li> <li>• A2 (gwasanaethau ariannol a phroffesiynol);</li> <li>• B1 (busnes);</li> <li>• D1 (sefydliadau amhreswyl);</li> <li>• D2 (ymgynnull a hamdden).</li> </ul>

2.15 Dim ond i adeiladau yng nghanol tref fel y nodir mewn cynllun datblygu y mae'r newid defnydd a ganiateir yn berthnasol, lle mae'r uned gynllunio gyfan yn dod o fewn ffin canol y dref er mwyn cael ei hystyried yn ddatblygiad a ganiateir.

- 2.16 Er mwyn diogelu amwynder ardaloedd preswyl, ar gyfer yr holl newidiadau i ddefnydd a ganiateir uchod, ni chaniateir datblygiad os mai'r defnydd Dosbarth A3 arfaethedig yw gwerthu bwyd poeth i'w fwyta oddi ar y safle; neu pan fydd y defnydd arfaethedig yn ddefnydd Dosbarth B1(c) (h.y. ar gyfer unrhyw broses ddiwydiannol). Gallai'r defnyddiau hyn arwain at effeithiau cynllunio y mae angen eu hystyried ymhellach drwy gyflwyno cais cynllunio. Mae gweithdrefn hysbysu hefyd yn berthnasol i helpu awdurdodau cynllunio lleol gyda eu gwaith monitro.
- 2.17 Ar hyn o bryd, caniateir newidiad defnydd am gyfnod o chwe mis, gan ddechrau ar y dyddiad y dechreuodd y datblygiad, a rhaid iddo ddod i ben ar neu cyn 29 Ebrill 2022, oni bai bod caniatâd cynllunio'n cael ei roi ar gyfer cadw'r defnydd. Gellir newid y ffordd y defnyddir yr adeilad yn ôl i'r defnydd gwreiddiol ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o chwe mis.

### **Cynnig**

- 2.18 Cyn y pandemig, roedd angen cynyddol i arallgyfeirio canolfannau manwerthu a masnachol fel y gallant addasu i dueddiadau manwerthu yn y dyfodol a pharhau i ddiwallu anghenion eu cymunedau lleol. Bydd hyn y bwysicach byth wrth inni symud ymlaen, o ganlyniad i effeithiau COVID-19. Mae llawer o unedau gwag yn peri niwed amlwg i gymeriad a bywiogrwydd canol trefi ac yn arwain at sgil-effeithiau fel lleihau hyder masnachol yn yr ardal a'i gallu i ddenu'r cyhoedd. Gall annog defnyddio unedau mewn ffyrdd eraill sy'n fasnachol hyfyw ddod â manteision cymdeithasol ac economaidd ac yn helpu i adfywio canol trefi.
- 2.19 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal adolygiad ehangach o bolisiau ar gyfer adfywio mewn canol trefi, gan ailedrych ar y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd, Nodyn Cyngor Technegol 4: Datblygiad Manwerthu a Masnachol a Pholisi Cynllunio Cymru i benderfynu a oes unrhyw camau y gellir eu cymryd i hyrwyddo rhagor o hyblygrwydd mewn canolfannau manwerthu/masnachol i adlewyrchu'r hyblygrwydd sydd ei angen i gynnal mannau bywiog yn dilyn COVID-19.
- 2.20 Cyn hyn, fel cam cychwynnol, bwriedir gwneud y newidiadau dros dro i ddefnydd a gyflwynwyd gan Ddosbarthiadau C, D ac E yn Rhan 4A yn barhaol. Byddai'r cyfnod prawf o chwe mis yn cael ei ddileu, gan ganiatáu cadw'r newidiadau i ddefnydd yn barhaol. Byddai'r gofyniad i'r adeilad fod yng nghanol y dref a'r broses ar gyfer hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol (ACLI) yn parhau. Byddai'r newidiadau arfaethedig i ddefnydd o ran gwerthu bwyd poeth i'w fwyta oddi ar y safle a'r defnyddiau yn Nosbarth B1(c) yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd yn parhau i gael eu heithrio.

Defnydd Presennol	Newid a Ganiateir	Ni chaniateir os	Amodau
Dosbarth Defnydd A1 (siopau)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• A2 (gwasanaethau ariannol a phroffesiynol);</li> <li>• A3 (bwyd a diod);</li> <li>• B1 (busnes);</li> <li>• D1 (sefydliadau amhreswyl);</li> <li>• D2 (ymgynnull a hamdden).</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• nad yw'r adeilad cyfan o fewn canol tref;</li> <li>• mai'r defnydd Dosbarth A3 arfaethedig yw gwerthu bwyd poeth i'w fwyta oddi ar y safle;</li> <li>• yw'r defnydd arfaethedig yn ddefnydd Dosbarth B1(c) yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• rhaid i'r datblygwr hysbysu'r ACLI am y datblygiad cyn gynted ag y bo gwneud hynny'n rhesymol ymarferol.</li> </ul>
Dosbarth Defnydd A2 (gwasanaethau ariannol a phroffesiynol)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• A1 (siopau);</li> <li>• A3 (bwyd a diod);</li> <li>• B1 (busnes);</li> <li>• D1 (sefydliadau amhreswyl);</li> <li>• D2 (ymgynnull a hamdden).</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• nad yw'r adeilad cyfan o fewn canol tref;</li> <li>• mai'r defnydd Dosbarth A3 arfaethedig yw gwerthu bwyd poeth i'w fwyta oddi ar y safle;</li> <li>• yw'r defnydd arfaethedig yn ddefnydd Dosbarth B1(c) yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• rhaid i'r datblygwr hysbysu'r ACLI am y datblygiad cyn gynted ag y bo gwneud hynny'n rhesymol ymarferol.</li> </ul>
Dosbarth Defnydd A3 (bwyd a diod)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• A1 (siopau);</li> <li>• A2 (gwasanaethau ariannol a phroffesiynol);</li> <li>• B1 (busnes);</li> <li>• D1 (sefydliadau amhreswyl);</li> <li>• D2 (ymgynnull a hamdden).</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• nad yw'r adeilad cyfan o fewn canol tref;</li> <li>• yw'r defnydd arfaethedig yn ddefnydd Dosbarth B1(c) yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• rhaid i'r datblygwr hysbysu'r ACLI am y datblygiad cyn gynted ag y bo gwneud hynny'n rhesymol ymarferol.</li> </ul>

**C.6** A ydych yn cytuno y dylai'r newidiadau a ganiateir o ran defnydd yng nghanol trefi ddod yn barhaol? Os nad ydych, rhowch eich rhesymau dros anghytuno.

## Defnyddiau lletygarwch – darparu cownter arlwygo awyr agored

- 2.21 Er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r awyr agored a lleihau'r risg y bydd cwsmeriaid yn lledaenu COVID-19, wrth hefyd alluogi busnesau i weithredu ar y capasiti mwyaf a ganiateir iddynt, gyda cyn lleied o ofynion gweinyddol ag y bo modd, cyflwynwyd hawliau datblygu a ganiateir.
- 2.22 Mae Dosbarth F yn Rhan 4A yn caniatáu defnyddio ffordd sy'n gyfagos i safle sydd yn Nosbarth A3 (bwyd a diod) at ddibenion gwerthu neu weini bwyd neu ddiod a gyflenwir ar y safle hwnnw neu at ddibenion bwyta bwyd neu yfed diod a gyflenwir oddi ar y safle hwnnw. Caniateir gosod dodrefn cludadwy i hwyluso'r defnydd hefyd. Mae hyn yn cynnwys byrddau, mathau o seddi, cownteri, stondinau, ymbaréls, rhwystrau a gwresogyddion neu eitemau eraill a ddefnyddir mewn cysylltiad â bwyta bwyd neu yfed diod yn yr awyr agored.
- 2.23 Cyn y pandemig roedd dyblygu yn y broses gydsynio ar gyfer gweithredu busnesau ar y ffordd, am fod angen cydsyniad ffurfiol gan yr awdurdod priffyrdd hefyd. Roedd diogelwch ar y ffyrdd yn cael ei ystyried yn ystod y ddwy broses gydsynio. Er bod caniatâd cynllunio yn cael ei roi gan Ddosbarth F ar hyn o bryd, mae caniatâd yr awdurdod priffyrdd yn golygu bod goblygiadau'r datblygiad o safbwynt diogelwch ar y ffyrdd yn cael eu hystyried mewn modd gweithredol.
- 2.24 Hefyd, gwaherddir cwsmeriaid rhag defnyddio'r ardal rhwng 10pm ac 8am er mwyn diogelu amwynder adeiladau preswyl cyfagos.
- 2.25 Daw'r caniatâd ar gyfer mannau a ganiateir i ben ar 3 Ionawr 2022, ac ar ôl hynny rhaid dod â'r defnydd i ben a dychwelyd y ffordd i'w chyflwr blaenorol.

## **Cynnig**

- 2.26 Mae defnyddio mannau awyr agored at ddibenion lletygarwch yn ychwanegu bywiogrwydd at fannau cyhoeddus wrth sicrhau bod cwsmeriaid yn cael rhagor o aer glân ac yn gallu cadw pellter corfforol. Mae'r broses gydsynio ar wahân o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 hefyd yn sicrhau bod y prif fater, sef diogelwch ar y ffyrdd, yn cael ei ystyried cyn i unrhyw ddatblygiad fynd rhagddo. Felly, bwriedir dileu'r cymal machlud, er mwyn parhau i ganiatáu defnyddio tir sy'n gyfagos i safleoedd lletygarwch at ddibenion gwerthu neu weini bwyd neu ddiod a gyflenwir ar y safle hwnnw, neu at ddibenion bwyta bwyd neu ddiod a gyflenwir oddi ar y safle, heb yr angen am ganiatâd cynllunio. Gellir rheoli ystyriaethau mewn perthynas ag amwynder drwy gyfyngiadau/amodau. Byddai'r holl gyfyngiadau/amodau presennol a osodir gan Ddosbarth F, Rhan 42, yn berthnasol.

**C.7** A ydych yn cytuno y dylid gwneud yr hawl datblygu a ganiateir ar gyfer defnyddio ffordd sy'n gyfagos i safle lletygarwch at yr un diben yn barhaol? Os nad ydych, rhowch eich rhesymau dros anghytuno.

**C.8** Os ateboch chi ydw i C.7, a oes angen unrhyw amodau ychwanegol i liniaru unrhyw effeithiau posibl ar amwynder?

## Defnyddiau Lletygarwch – Adlenni

- 2.27 Er mwyn hwyluso manau masnachu awyr agored at ddibenion lletygarwch mewn tywydd garw, cyflwynwyd Dosbarth D yn Rhan 42 sy'n caniatáu codi adlenni y gellir eu tynnu dros flaen safleoedd sydd yn Nosbarth A3 (bwyd a diod) o'r Atodlen i Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd.
- 2.28 Ni chaniateir datblygu ar dir erthygl 1(5), ar Safle Treftadaeth y Byd, nac i adeiladau rhestredig, am fod angen ystyried yr effeithiau cynllunio ar eu cymeriad arbennig yn fanylach.
- 2.29 Os bydd adlen yn estyn dros ffordd gyhoeddus, rhaid bod wedi cael caniatâd gan yr awdurdod priffyrdd perthnasol o dan adran 115E o Ddeddf Priffyrdd 1980 i osod yr adlen a defnyddio'r lle oddi tani. Mae hyn yn sicrhau bod goblygiadau'r datblygiad mewn perthynas â diogelwch ar y ffyrdd yn cael eu hystyried yn llawn gan yr awdurdod priffyrdd perthnasol.
- 2.30 Hefyd, mae amodau'n ceisio cyfyngu ar yr effaith weledol drwy ei gwneud yn ofynnol defnyddio adlenni y gellir eu tynnu'n ôl yn llawn (a'u tynnu nhw'n ôl yn llawn rhwng 10pm ac 8am), heb unrhyw ddull o'u cynnal ar y ffordd, ac at ddibenion diogelwch ni ddylent gynnwys unrhyw paneli blaen neu baneli ar yr ochr sy'n estyn tuag at y llawr.
- 2.31 Ar hyn o bryd, nid oes angen cais cynllunio ar gyfer adlenni a osodwyd cyn 29 Ebrill 2022. Ar ôl y dyddiad hwn, bydd angen caniatâd cynllunio i osod unrhyw adlenni newydd.

## **Cynnig**

- 2.32 Bwriedir dileu'r cymal machlud, gan roi caniatâd cynllunio ar gyfer adlenni ar flaen safleoedd lletygarwch, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau/amodau a ragnodir yn Nosbarth D, Rhan 42.

**C.9 A ydych yn cytuno y dylid gwneud yr hawl datblygu a ganiateir ar gyfer gosod adlenni at ddibenion lletygarwch yn barhaol? Os nad ydych, rhowch eich rhesymau dros anghytuno.**

### 3. COVID-19: Hawliau Datblygu a Ganiateir Brys

#### Rhan 3A: Adeilad Dros Dro a Newidiadau i Ddefnydd at Ddibenion Brys Iechyd y Cyhoedd

- 3.1 Cyflwynodd Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2020 hawliau datblygu a ganiateir i alluogi cyrff y GIG i ymgymryd â datblygiadau dros dro er mwyn ymateb i COVID-19, ac i osgoi'r oedi wrth wneud a phrosesu ceisiadau cynllunio, gan alluogi ymateb cyflymach i'r argyfwng.
- 3.2 Yn ystod argyfwng iechyd cyhoeddus, mae angen yn aml i'r GIG ymateb yn gyflym i sefyllfaoedd sy'n newid er mwyn atal a lliniaru argyfwng iechyd pobl. Derbynnir, yn ystod cyfnod o'r fath, y gallai fod angen llacio'r gofynion rheoleiddio arferol, er mwyn lleihau'r pwysau ar y GIG a galluogi cyrff y gwasanaeth iechyd i ddarparu cyfleusterau i brofi, trin a rheoli adferiad nifer uchel iawn o gleifion. Gyda hyn mewn golwg, diben Rhan 3A yw caniatáu datblygiad penodol at ddibenion atal, rheoli neu liniaru effeithiau, neu gymryd camau eraill mewn perthynas ag argyfwng iechyd cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig.
- 3.3 Y datblygiad a ganiateir yw newid defnydd adeilad neu dir i ddefnydd sy'n dod o fewn Dosbarth C2 (Sefydliadau preswyl) neu Ddosbarth D1 (Sefydliadau dibreswyl) yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd, a darpariaeth adeiladau neu strwythurau eraill.
- 3.4 Mae hawliau datblygu a ganiateir wedi cael eu defnyddio'n helaeth ledled Cymru i ddarparu cyfleusterau gan gynnwys ysbytai maes, gorsafoedd profi a chanolfannau brechu fel rhan o'r ymateb i'r pandemig.
- 3.5 At ddibenion Rhan 3A, mae argyfwng iechyd cyhoeddus yn ddigwyddiad neu'n sefyllfa sy'n achosi neu a allai achos colli bywyd dynol, salwch dynol difrifol neu anafiadau i bobl; neu amharu'n ddifrifol ar wasanaethau sy'n ymwneud ag iechyd.
- 3.6 Er mwyn diogelu'r cyhoedd, ni chaniateir datblygiad o dan Ran 3A os yw unrhyw ran o'r datblygiad ar dir sy'n ardal storio filwrol neu yn rhan o ardal o'r fath, yn ardal berygl neu'n safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig. Ni chaniateir datblygiad ychwaith os yw'r tir neu'r adeilad yn heneb gofrestredig, neu'n cynnwys heneb gofrestredig. Mae'r hawl datblygu a ganiateir yn ddarostyngedig i gyfyngiadau sydd hefyd wedi eu hamlinelli yn y Rhan 3A newydd. Yr amodau hynny yw:
  - Rhaid i'r datblygiad gael ei wneud gan neu ar ran corff y GIG;
  - Os nad yr awdurdod cynllunio lleol yw'r datblygwr, rhaid i'r datblygwr hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol am y datblygiad;
  - Rhaid i'r datblygwr roi'r gorau i ddefnyddio'r tir at y diben brys pan ddaw cyfnod o 12 mis i ben o'r adeg y dechreuodd.
  - Rhaid symud unrhyw strwythurau a phlanhigion ac ati a rhaid adfer yr adeilad a/neu'r tir i'w gyflwr blaenorol (neu i gyflwr y cytunwyd arno) ar neu cyn i gyfnod o 12 mis ddod i ben o'r adeg y dechreuodd y datblygiad. Fel



arall, byddai'n rhaid gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer unrhyw ddefnydd parhaus.

## Cynnig

- 3.7 Oherwydd yr angen brys am yr hawliau datblygu a ganiateir i gynorthwyo gyda'r ymateb i COVID-19, nid oedd Llywodraeth Cymru yn gallu cynnal ymgynghoriad ar hawliau datblygu a ganiateir Rhan 3A cyn iddynt ddod i rym.
- 3.8 Ystyrir bod angen yr hawliau datblygu hyn i sicrhau bod y pwerau ar gael i gyrff y GIG i'w galluogi i barhau i ymateb i bandemig parhaus COVID-19, ond hefyd i weithredu'n gyflym os bydd argyfwng yn y dyfodol. Felly, rydym yn cynnig cadw'r darpariaethau hyn.

### **C.10 A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch Rhan 3A?**

#### Rhan 12A: Datblygiad Brys gan Awdurdodau Lleol

- 3.9 Cyflwynodd Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2020 hawliau datblygu a ganiateir newydd i helpu awdurdodau lleol i ymateb i argyfwng.
- 3.10 Yn ystod argyfwng, yn aml mae angen i lywodraeth leol ymateb yn gyflym i sefyllfaoedd sy'n newid er mwyn atal a lliniaru argyfwng iechyd pobl. Derbynnir y dylid llacio gofynion rheoleiddio arferol yn ystod adeg o'r fath er mwyn lleihau'r pwysau sylweddol sydd ar awdurdodau lleol, gan fod ganddynt gyfrifoldebau helaeth mewn perthynas â rheoli argyfwng a'r angen i weithredu'n gyflym.
- 3.11 Er pwysigrwydd ymdrin â sefyllfaoedd brys, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod eu hymddygiad yn cydymffurfio â'r gyfraith. Gyda hyn mewn golwg, mae Rhan 12A yn rhoi hawliau datblygu a ganiateir i awdurdodau lleol ymgymryd ag unrhyw ddatblygiad dros dro sydd ei angen ar dir mae'n berchen arno, tir mae'n ei brydlesu neu'n ei feddiannu neu tir mae'n ei gynnal a'i gadw, er mwyn ymateb i argyfwng. Mae hyn yn cynnwys newid defnydd unrhyw adeilad i unrhyw ddefnydd arall a chodi adeiladau neu strwythurau at y dibenion sydd eu hangen fel rhan o ymateb yr awdurdodau lleol i argyfwng.
- 3.12 At ddibenion Rhan 12A, mae argyfwng yn ddigwyddiad neu sefyllfa sy'n bygwth niwed difrifol i les dynol mewn lle yn y Deyrnas Unedig. Mae digwyddiad neu sefyllfa'n bygwth niwed i les dynol dim ond os yw'n achosi neu os gallai achosi:
- colli bywyd dynol;
  - salwch neu anaf dynol;
  - digartrefedd;
  - difrod i eiddo;
  - tarfu ar gyflenwad arian, bwyd, dŵr, ynni neu danwydd;
  - tarfu ar system gyfathrebu;
  - tarfu ar gyfleusterau trafnidiaeth; neu
  - darfu ar wasanaethau sy'n ymwneud ag iechyd.

3.13 Mae'r datblygu a ganiateir yn ddarostyngedig i gyfyngiadau a amlinellir yn y Rhan 12A newydd. Mae hyn yn cynnwys amod sy'n cyfyngu'r cyfnod y gellir cadw datblygiadau a wneir o dan y Rhan hon i 12 mis o'r dyddiad y dechreuodd y datblygiad. Ar ôl y cyfnod hwn, rhaid i'r datblygiad gweithredol gael ei ddileu a'r defnydd dros dro ddod i ben. Rhaid adfer y tir i'w gyflwr blaenorol cyn y datblygiad (neu i gyflwr y cytunwyd arno gyda'r awdurdod cynllunio lleol), fel arall rhaid cael caniatâd cynllunio i gadw'r datblygiad.

### **Cynnig**

- 3.14 Oherwydd yr angen brys am yr hawliau datblygu a ganiateir i gynorthwyo gyda'r ymateb i COVID-19, nid oedd Llywodraeth Cymru yn gallu cynnal ymgynghoriad ar hawliau datblygu a ganiateir Rhan 12A cyn iddynt ddod i rym.
- 3.15 Ystyrir bod angen yr hawliau datblygu hyn i sicrhau bod y pwerau ar gael i gyrff y GIG i'w galluogi i barhau i ymateb i bandemig parhaus COVID-19, ond hefyd i weithredu'n gyflym os bydd argyfwng yn y dyfodol. Felly, rydym yn cynnig cadw'r darpariaethau hyn.

<b>C.11</b> A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch Rhan 12A?
--

## 4. Tai Amlfeddiannaeth

- 4.1 Mae amgylchiadau lle rydym yn ystyried eglurder y gyfraith neu newidiadau i batrymau defnydd tir sy'n gofyn am adolygiad o gwmpas y GDCG. Mae ymestyn ac addasu tai amlfeddiannaeth yn un o'r mathau o ddatblygiad y mae angen eu hadolygu.
- 4.2 Mae Rhan 1 o Atodlen 2 i'r GDCG yn nodi hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer estyniadau ac addasiadau i dai annedd. Nid yw'r hawliau datblygu a ganiateir yn berthnasol pan fydd adeilad wedi cael ei rannu'n fflatiau. Y rheswm dros hyn yw bod yr amrywiaeth enfawr yn y ffordd y gellir rhannu tai annedd yn ei gwneud yn anodd rhagweld, ar lefel genedlaethol, sut y gallai estyniadau neu addasiadau effeithio ar amwynder meddianwyr cyfagos.
- 4.3 Ar hyn o bryd, at ddibenion y GDCG, mae tŷ amlfeddiannaeth yn dŷ annedd ac felly mae'n elwa ar hawliau datblygu a ganiateir. Felly, gall estyniad effeithio ar amwynder meddianwyr tŷ amlfeddiannaeth heb fod yn destun craffu gan yr awdurdod cynllunio lleol. Mae'r angen am graffu o'r fath yn llai ar gyfer meddianwyr tŷ amlfeddiannaeth o'u cymharu â meddiannydd fflat, ar y sail bod perchnogaeth tir sengl tŷ amlfeddiannaeth yn golygu bod buddiannau meddianwyr yn y dyfodol yn debygol o fod wedi cael eu hystyried mewn ffordd fwy cyfannol o'i gymharu â dwy fflat cysylltiedig. Fodd bynnag, mae ymyrryd yng nghynllun datblygiadau o'r fath er mwyn cynnal safon fyw ofynnol ar gyfer tenantiaid yn y dyfodol o ganlyniad i newidiadau i ffurfwedd allanol yr adeilad yn parhau i fod er budd y cyhoedd.
- 4.4 Mae effeithiau allanol defnyddio tŷ annedd fel tŷ amlfeddiannaeth yn rhoi rhesymau ychwanegol dros geisio cyflwyno cyfyngiadau ychwanegol ar dai amlfeddiannaeth. Crëwyd dosbarth defnydd newydd ar gyfer tai amlfeddiannaeth o ganlyniad i bryderon y cyhoedd am yr effeithiau amgylcheddol ychwanegol y maent yn eu hachosi o'u cymharu â thŷ sy'n cael ei ddefnyddio gan deulu. Mae'r potensial ychwanegol i'r effeithiau amgylcheddol hynny gynyddu heb fod yn destun craffu fel rhan o gais cynllunio'n rhywbeth yr hoffem ei osgoi. Gall estyn adeilad a ddefnyddir fel tŷ amlfeddiannaeth ganiatáu i bersonau ychwanegol fyw yno. Oherwydd y posibilrwydd cynyddol o effeithiau ar amwynder a'r amgylchedd gan dai amlfeddiannaeth o'r fath, ystyrir y dylai ACLlau allu rheoli'r effeithiau hyn drwy ystyried cais cynllunio.

### Cynnig

- 4.5 Er mwyn gallu rheoli tai amlfeddiannaeth yn well, cynigir na ddylai tai amlfeddiannaeth elwa mwyach ar yr hawliau datblygu a ganiateir a roddwyd o dan Ran 1 o'r GDCG ar gyfer addasiadau ac estyniadau i dŷ annedd. Dylai caniatâd cynllunio fod yn ofynnol ar gyfer datblygiad i dŷ annedd a ddefnyddir fel tŷ amlfeddiannaeth, lle mae'n cynnwys ymestyn yr eiddo, i alluogi ACLlau i ystyried effeithiau'r cynllun yn llawn, yn enwedig lle y gallai estyniad arwain at y tŷ yn cael ei ddefnyddio gan ragor o bobl.

**C.12** A ydych yn cytuno na ddylai tai amlfeddiannaeth elwa ar hawliau datblygu a roddwyd gan Ran 1 o'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir sy'n caniatáu addasiadau ac estyniadau i dŷ annedd? Os nad ydych, rhowch eich rhesymau dros anghytuno.

## 5. Gosod Arwyneb Caled

- 5.1 Mae Dosbarth F yn Rhan 1 yn caniatáu i arwyneb caled gael ei osod o fewn cwrtil tŷ annedd. Ar rannau sydd o flaen y brif wedd a rhwng y brif wedd a'r ffordd, mae'n rhaid defnyddio deunyddiau mân-dyllog neu hydraiddd, oni bai bod dŵr wyneb yn cael ei gyfeirio at ardal fân-dyllog neu hydraiddd o fewn cwrtil y tŷ annedd.
- 5.2 Mae amllder a difrifoldeb llifogydd yn cynyddu a disgwylir iddynt gynyddu ymhellach o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Gall llifogydd beri perygl i fywyd, achosi trawma personol sylweddol, arwain at ddifrod helaeth a drud i eiddo, rhoi pwysau ar wasanaethau brys ac amharu'n ddifrifol ar gyfathrebu, busnes a masnach.
- 5.3 Gall glaw trwm sy'n disgyn ar arwynebau anhydraiddd achosi llifogydd lleol yn unrhyw le bron. Gall glaw trwm hefyd arwain at systemau draenio a chyrsgiau dŵr cyffredin yn cael eu gorlifo'n gyflym, gan arwain at lifogydd lleol. Wrth i'r hinsawdd newid, bydd y math hwn o lifogydd yn dod yn fwy cyffredin ac yn fwy difrifol. Mae'n bwysig bod y perygl o lifogydd o ddŵr wyneb a chyrsgiau dŵr cyffredin yn cael ei ystyried yn llawn gan y system gynllunio.

### Cynnig

- 5.4 Cynigir y dylai'r amod presennol y dylai arwynebau caled fod yn hydraiddd fod yn berthnasol i bob ardal o arwyneb caled newydd neu arwyneb caled sy'n disodli hen arwyneb o fewn cwrtil y tŷ annedd, nid o flaen y prif wedd yn unig.

<b>C.13</b>	<b>A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Ddosbarth F? Os nad ydych, awgrymwch ddulliau, cyfyngiadau neu drothwyon eraill y gellid eu mabwysiadu.</b>
-------------	---

## 6. Gwefru Cerbydau Trydan

- 6.1 Yn 2019, cyflwynwyd hawliau datblygu a ganiateir newydd i hwyluso'r gwaith o gyflwyno seilwaith gwefru cerbydau trydan mewn mannau cyhoeddus a mannau preifat.
- 6.2 Cyflwynodd Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2019 Ddosbarthiadau D ac E yn Rhan 2 (Mân Weithrediadau) o'r GDCG, a gwnaeth ddiwygiadau i Ran 12 (Datblygu gan Awdurdodau Lleol) i roi eglurhad ynghylch cwmpas yr hawliau datblygu a ganiateir presennol ar gyfer awdurdodau lleol.
- 6.3 Ym mis Ebrill 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r [Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan](#), gan nodi ei chynlluniau ar gyfer ateb y galw cynyddol am wefru ceir a faniau ac yng Nghymru. Sefydlodd y strategaeth weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer gwefru yng Nghymru:

*'Erbyn 2025, bydd pawb sy'n defnyddio ceir a faniau trydan yng Nghymru yn hyderus y gallant gael at seilwaith gwefru cerbydau trydan ar yr adeg ac yn y man y mae arnynt ei angen.'*

- 6.4 Mae'r strategaeth hefyd yn nodi y bydd bysiau trydan yn cael eu defnyddio'n fasnachol yn fwyfwy dros y degawd nesaf wrth i dechnoleg batris wella. Disgwylir i fysiau trydan gynrychioli 60% o'r farchnad bysiau trefol yn fyd-eang erbyn 2030 ac 80% erbyn 2040.
- 6.5 Un canlyniad allweddol sydd ei angen i gyflawni'r weledigaeth hon yw rhagor o fannau gwefru araf, cyflym a chyflym iawn ar gael yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei rôl wrth alluogi'r seilwaith gwefru hwn, ac o ganlyniad cyhoeddodd [Gynllun Gweithredu](#) wedi'i dargedu ar 26 Hydref yn amlinellu'r camau mae angen eu cymryd i fodloni'r galw sy'n cynyddu'n gyflym.
- 6.6 Nododd y Cynllun Gweithredu y dylid defnyddio pwerau rheoleiddio a chynllunio, yn ogystal â chanllawiau cynllunio defnydd tir, defnyddio tir ac adnoddau cyhoeddus, cyllid a rhaglenni cymorth wedi'u targedu i gyfrannu at gyflawni'r Strategaeth.
- 6.7 Er bod yr hawliau datblygu a ganiateir a gyflwynwyd yn 2019 wedi dileu'r rhwystrau cychwynnol rhag cyflwyno seilwaith gwefru, mae angen mwy o hyblygrwydd byth i gyfrannu at ddarparu rhwydwaith gwefru cyflym/cyflym iawn a gweithio gyda phartneriaid ar ddarparu seilwaith yn y gymuned i fynd i'r afael ag anghenion y rhai nad ydynt yn gallu gwefru oddi wrth y stryd.

### Cynnig

- 6.8 Er mwyn ategu'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan, cynnigir y newidiadau canlynol i hawliau datblygu a ganiateir:

Y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir	Achos	Effaith
Rhan 2 (Mân Weithrediadau)	<p>Dosbarth D – Dileu D1(a) sy'n cyfyngu ar faint y pwynt trydan a'i flwch</p> <p>Dosbarth E – Cynyddu'r uchder mwyaf a ganiateir i 2.5m.</p> <p><u>Amodau newydd:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Er mwyn diogelu amwynder, cynigir amod newydd sy'n cyfyngu unrhyw hysbysebu i ddarparwr a swyddogaeth y seilwaith er mwyn atal defnyddio seilwaith gwefru rhag cael ei ddefnyddio fel modd o osod hysbysebion nad ydynt yn gysylltiedig â'r man gwefru heb ganiatâd.</li> </ul>	Galluogi gosod seilwaith gwefru cyflym ar dir preifat a thir cyhoeddus.
Rhan 12 (Datblygiad gan Awdurdodau Lleol)	<p>Caniateir datblygiad pan gaiff ei wneud gan drydydd parti ar ran (neu mewn partneriaeth ag) Awdurdod Lleol.</p> <p><u>Amodau newydd:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Er mwyn diogelu amwynder, cynigir amod newydd sy'n cyfyngu unrhyw hysbysebu i ddarparwr a swyddogaeth y seilwaith er mwyn atal defnyddio seilwaith gwefru rhag cael ei ddefnyddio fel modd o osod hysbysebion nad ydynt yn gysylltiedig â'r man gwefru heb ganiatâd.</li> <li>Cynigir amod newydd i sicrhau nad yw unrhyw seilwaith yn amharu ar lwybr teithio llesol.</li> </ul>	Rhoddir eglurder ynghylch lle mae datblygiad yn cael ei wneud gan drydydd parti ar y cyd ag Awdurdod Lleol.
Rhan 13 (Datblygiad gan Awdurdodau Priffyrdd)	<p>Pennu amodau ar gyfer gosod seilwaith gwefru cerbydau trydan</p> <p><u>Amodau:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Yr un rhai ag sydd ar gyfer awdurdodau lleol o dan Ran 12</li> </ul>	Darparu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer gosod seilwaith gwefru cerbydau trydan lle nad yr awdurdod lleol yw'r awdurdod priffyrdd.
Rhan 17 (Datblygiad gan Ymgwymerwyr Statudol)	<p>Dosbarth H (Ymgymeriadau Trafnidiaeth Tramffordd neu Ffyrdd) – Pennu amodau ar gyfer gosod seilwaith gwefru cerbydau trydan</p> <p><u>Amodau newydd:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Yr un rhaid ag sydd ar gyfer awdurdodau lleol o dan Ran 12</li> </ul>	Eglurder ynghylch gosod seilwaith gwefru trydan ar gyfer bysiau mewn gorsafoedd a depos

**C.14** A ydych yn cytuno y dylid rhoi rhagor o hyblygrwydd drwy hawliau datblygu a ganiateir i gyflymu'r broses o gyflwyno seilwaith gwefru cerbydau trydan? Os nad ydych, rhowch eich rhesymau dros anghytuno.



## 7. Ffliw Adar

- 7.1 Rhoddodd Rhan 39 o Atodlen 2 i'r GDCG hawl datblygu a ganiateir dros dro tan 21 Mawrth 2008 i ganiatáu codi cysgodfeydd dros dro i letya adar, neu addasu adeiladau presennol heb yr angen i gael caniatâd cynllunio penodol. Mae'n ddarostyngedig i gyfyngiadau o ran maint ac uchder ac mae hefyd yn ddarostyngedig i amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol hysbysu'r ACLI, a chyfyngu'r defnydd o'r strwythur i'r diben o ddiogelu adar rhag Ffliw Adar yn unig.
- 7.2 Mae achosion diweddar o Ffliw Adar wedi arwain at ystyried y rheolaethau cynllunio perthnasol ar gyfer adeiladau i letya dofednod ac adar caeth eraill. Os bydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith, yn ystod achosion o Ffliw Adar, i berchnogion adar letya adar, bydd yn rhaid i berchnogion nad oes ganddynt strwythurau addas ar y pryd gydymffurfio â'r gofyniad a bod mewn perygl o dderbyn hysbysiad gorfodi cynllunio, neu beidio â chydymffurfio â'r gofyniad wrth iddynt aros am ganiatâd cynllunio a bod mewn perygl o gamau gweithredu yn cael eu cymryd yn eu herbyn o dan ddeddfwriaeth ffliw adar
- 7.3 Er nad yw ymgymryd â datblygiad heb ganiatâd cynllunio yn dramgwydd troseddol, ac er bod camau gorfodi yn cael eu cymryd yn ôl disgrisiwn (ni ddylid ond eu cymryd os yw'n 'briodol'), yn amlwg nid yw'n ddymunol i berchnogion fod yn agored i ansicrwydd a'r posibilrwydd o gamau gweithredu pan ellid osgoi hynny drwy adfer yr hawl datblygu a ganiateir.

### Cynnig

- 7.4 Cynigir dod â Rhan 39 yn ôl i rym bob tro y rhoddir rheolaethau ffliw adar ar waith (boed yn lleol neu'n genedlaethol). Byddai hawliau datblygu a ganiateir yn para nes yr hysbysir bod y rheolaethau hyn yn cael eu tynnu'n ôl, a byddai gan berchnogion bedwar mis i gael gwared ar y datblygiad dros dro.

**C.15 A ydych yn cytuno ag ailgyflwyno hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer diogelu dofednod ac adar caeth eraill?**

## 8. Cyfarwyddiadau Erthygl 4

- 8.1 Cyfarwyddiadau Erthygl 4 yw un o'r offerynnau sydd ar gael i ACLlau sy'n caniatáu iddynt ymateb i anghenion penodol eu hardaloedd. Maent yn galluogi ACLlau i dynnu 'hawliau datblygu a ganiateir' yn ôl a fyddai fel arall yn berthnasol yn rhinwedd y GDCG. Nid yw Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn atal datblygu. Yn hytrach, mae'n ei gwneud yn ofynnol cael caniatâd cynllunio gan yr ACLI fel y gellir ystyried effeithiau cynllunio'r datblygiad cyn gwneud penderfyniad ynghylch a ellir bwrw ymlaen ag ef.
- 8.2 Dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried gwneud Cyfarwyddiadau Erthygl 4 mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, pan fydd tystiolaeth yn awgrymu y byddai arfer hawliau datblygu a ganiateir yn cael effaith andwyol ar amwynder lleol neu ar y broses o gynllunio'r ardal yn briodol. Caiff Gweinidogion Cymru wneud Cyfarwyddiadau Erthygl 4 Hefyd.
- 8.3 Yng Nghymru, ar hyn o bryd mae'r GDCG yn darparu ar gyfer dau fath o Gyfarwyddiadau Erthygl 4:
- **Erthygl 4(1)** – dan Erthygl 4(1) gall Awdurdod Cynllunio Lleol neu Weinidogion Cymru gyfyngu ar unrhyw hawliau datblygu a ganiateir mewn unrhyw Ran, Dosbarth neu baragraff yn Atodlen 2 o'r GDCG (heblaw am Ddosbarth B o Ran 22 (archwilio mwynol) neu Ddosbarth B o Ran 23 (tynnu deunydd o waddodion gwaith mwynol)). Nid yw'r cyfarwyddyd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus Fel arfer mae Cyfarwyddyd yn dod i rym ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru, er nad oes angen cymeradwyaeth o'r fath ar gyfer datblygiad a gymeradwywyd o dan Rannau 1–4 neu Ran 31.
  - **Erthygl 4(2)** – O dan Erthygl 4(2) caiff ACLI wneud Cyfarwyddyd i gyfyngu ar rai hawliau datblygu a ganiateir mewn Ardaloedd Cadwraeth. Yn gyffredinol, nid yw Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) yn berthnasol ond i anheddau ac i addasiadau allanol i wedd adeiladau sy'n wynebu priffordd, dyfrffordd neu fan agored cyhoeddus. Rhaid i'r Cyfarwyddyd fod yn destun ymgynghoriad o 21 diwrnod o leiaf, ond nid oes angen i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo. Oni chaiff ei gadarnhau gan yr ACLI, daw Cyfarwyddyd a wneir o dan Erthygl 4(2) i ben chwe mis ar ôl y dyddiad y'i gwnaed.
- 8.4 Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi defnyddio Cyfarwyddiadau Erthygl 4 fel modd i ACLlau fynd i'r afael ag amgylchiadau lleol mewn ymateb i newidiadau i hawliau datblygu a ganiateir. Gall symleiddio'r broses Erthygl 4 hefyd arwain at eu defnyddio'n fwy helaeth.
- 8.5 Rydym am gefnogi ACLlau i reoli arfer hawliau datblygu a ganiateir lle byddent yn cael effaith andwyol ar amwynder lleol neu ar y broses o gynllunio'r ardal yn briodol. Fodd bynnag, mae defnyddio Cyfarwyddiadau Erthygl 4 wedi'i gyfyngu ar hyn o bryd gan yr angen i sicrhau cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru (ac eithrio mathau penodedig o ddatblygiadau mewn ardaloedd cadwraeth), a gallai hyn rwystro ACLlau rhag defnyddio pwerau o'r fath.

## Cynnig

- 8.6 Cynigir dileu'r angen i gael cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru ar gyfer pob Cyfarwyddiad Erthygl 4 a wneir gan ACLlau. Fodd bynnag, rydym am gadw pŵer wrth gefn i Weinidogion Cymru addasu neu ganslo Cyfarwyddyd Erthygl 4 a wneir gan ACLI, yn amodol ar rai eithriadau, a chadw'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud eu Cyfarwyddiadau Erthygl 4 eu hunain.
- 8.7 Cynigir gwneud darpariaeth ar gyfer dau fath o Gyfarwyddyd Erthygl 4; Cyfarwyddiadau sy'n dod i rym yn uniongyrchol ('Cyfarwyddiadau uniongyrchol') a Chyfarwyddiadau nad ydynt yn dod i rym yn uniongyrchol ('Cyfarwyddiadau nad ydynt yn uniongyrchol').

### Cyfarwyddiadau sy'n dod i rym yn uniongyrchol

- 8.8 Mewn achosion pan fydd angen i ACLlau weithredu'n gyflym er mwyn ymdrin â bygythiad i amwynder ardal, rydym am i ACLlau feddu ar y pŵer i wneud cyfarwyddyd sy'n dileu hawliau datblygu a ganiateir un uniongyrchol.
- 8.9 Y bwriad polisi yw mai dim ond i dynnu nifer fach o hawliau datblygu a ganiateir y gellir defnyddio Cyfarwyddiadau uniongyrchol. Rydym am i Gyfarwyddiadau sy'n dod i rym yn uniongyrchol fod yn berthnasol i'r dosbarthiadau datblygu canlynol yn y GDCG yn unig:
- (i) Rhan 1 – Datblygiad o fewn cwrtil tŷ annedd
  - (ii) Rhan 2 – Mân Weithrediadau
  - (iii) Rhan 3 – Newidiadau Defnydd
  - (iv) Rhan 4 – Adeiladau a Defnyddiau Dros Dro
  - (v) Rhan 31 – Dymchwel Adeiladau
  - (vi) Unrhyw Gyfarwyddyd o fewn y cyfan neu ran o unrhyw ardal gadwraeth a'r datblygiad fel y'i disgrifir ar hyn o bryd yn erthygl 4(5) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995.
- 8.10 Byddai Cyfarwyddyd uniongyrchol yn para am chwe mis ac wedyn byddai'n dod i ben oni bai bod yr ACLI wedi cadarnhau fel arall yn dilyn ymgynghoriad.

- 8.11 Mae'r weithdrefn gyffredinol yn cael ei hamlinellu yn Atodiad A i'r ddogfen hon

### Cyfarwyddiadau nad ydynt yn uniongyrchol

- 8.12 Os yw ACLlau yn dymuno dileu hawliau datblygu a ganiateir nad ydynt yn y dosbarthiadau datblygu a nodir uchod, ac eithrio Dosbarth B yn Rhan 22 neu Ddosbarth B yn Rhan 23 yn y GDCG presennol, bydd angen cyhoeddi Cyfarwyddyd nad yw'n uniongyrchol.
- 8.13 Mae'r weithdrefn gyffredinol yn cael ei hamlinellu yn Atodiad A i'r ddogfen hon

Cyfarwyddiadau sy'n cyfyngu ar ddatblygiadau penodol a ganiateir ar gyfer mwynau

- 8.14 Mae Erthygl 4(1) o'r GDCG yn gwneud darpariaeth ar gyfer Cyfarwyddiadau sy'n cyfyngu ar ddatblygu a ganiateir o dan Ddosbarth B yn Rhan 22 neu Ddosbarth B yn Rhan 23. Ni fydd y ddarpariaeth hon yn newid.

Esemptiadau

- 8.15 Rydym am atgynhyrchu erthygl 4(3) o'r GDCG er mwyn sicrhau na ellir tynnu hawliau datblygu a ganiateir sy'n gysylltiedig â phryderon cenedlaethol, diogelwch a gwaith cynnal a chadw ar gyfer cyfleusterau sy'n bodoli eisoes yn ôl.

Ymgwymerwyr Statudol

- 8.16 Rydym am atgynhyrchu erthygl 4(4) o'r GDCG er mwyn sicrhau, pe bai Cyfarwyddyd yn effeithio ar hawliau datblygu a ganiateir gan ymgwymerwyr statudol penodol, fod hyn yn cael ei nodi yn y Cyfarwyddyd.

Rôl Weinidogion Cymru

- 8.17 Cynigir dileu'r angen i Weinidogion Cymru gadarnhau'r rhan fwyaf o Gyfarwyddiadau Erthygl 4. Yn hytrach, rydym am i ACLlau gadarnhau'r holl Gyfarwyddiadau Erthygl 4 (ac eithrio'r rhai a wneir gan Weinidogion Cymru) yn dilyn ymgynghoriad lleol.
- 8.18 Fodd bynnag, rydym am i Weinidogion Cymru gadw pwerau wrth gefn penodol mewn perthynas â Chyfarwyddiadau Erthygl 4:
- Y pŵer i wneud, diddymu neu amrywio Cyfarwyddyd, yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau ac esemptiadau ag ACLlau.
  - Pŵer i wneud Cyfarwyddyd i ddiddymu'r rhan fwyaf o Gyfarwyddiadau Erthygl 4 a wneir gan ACLlau ar unrhyw adeg cyn neu ar ôl iddynt gael eu cadarnhau, ac eithrio Cyfarwyddiadau Erthygl 4 o fewn Ardal Gadwraeth gyfan/rhan o Ardal Gadwraeth ar gyfer datblygiad a ddisgrifir yn erthygl 4(5) o'r GDCG presennol (mae'r rhain yn gyfarwyddiadau erthygl 4(2) ar hyn o bryd nad oes angen i Weinidogion Cymru eu cymeradwyo)

Addasu a diddymu Cyfarwyddiadau erthygl 4

- 8.19 Fel y darperir ar ei gyfer gan Erthygl 8 o'r GDCG, rydym am roi'r pŵer i ACLlau a Gweinidogion Cymru, drwy wneud Cyfarwyddyd dilynol, i ddiddymu neu amrywio Cyfarwyddyd Erthygl 4 a wneir ganddynt.

**C.16 A ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer diwygio Cyfarwyddiadau Erthygl 4?**

## 9. Ystyriaethau ynglŷn â'r Gymraeg

**C.17** Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn eich barn chi, beth fyddai'r effaith? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

## 10. Ystyriaethau cyffredinol

**C.18** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau ymgynghori penodol. Os oes unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi.

## Atodiad A

### Erthygl 4 i'w gweithredu ar unwaith – proses Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer gwneud, amrywio neu ddiddymu Cyfarwyddyd

#### Hysbysebu trwy

- hysbyseb leol, a
- hysbysiad safle, a
- chyflwyno hysbysiad i'r perchennog a'r meddiannydd

*Nid oes angen rhoi gwybod i'r perchennog/ meddiannydd os:*

- *Nad yw'n ymarferol cyflwyno i berchennog/meddiannydd unigol*
- *Nad yw hyn yn ymarferol oherwydd nifer y perchennogion*
- *Noder: nid yw'r eithriad hwn yn berthnasol pan fo'r perchennog/ meddiannydd yn ymgymerwr statudol neu'r Goron*

#### Cynnwys Hysbysiad:

- cynnwys disgrifiad o'r datblygiad a'r ardal y mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud â hi neu'r safle y mae'n ymwneud ag ef, a datganiad o effaith y cyfarwyddyd
- nodi'n benodol y gwneir y cyfarwyddyd o dan erthygl 4
- enwi lle y gellir gweld copi o'r cyfarwyddyd a chopi o'r map yn ystod oriau gwaith arferol
- nodi cyfnod o 21 diwrnod neu fwy, a'r dyddiad pan fydd y cyfnod yn dechrau, i gyflwyno sylwadau ynglŷn â'r cyfarwyddyd i'r awdurdod cynllunio lleol.

Mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol roi gwybod i Weinidogion Cymru ar yr un diwrnod ag y rhoddir hysbysiad o'r cyfarwyddyd.

Mae'n rhaid i awdurdod cynllunio lleol, cyhyd ag y bo'n ymarferol ar ôl cadarnhau cyfarwyddyd:

- (a) roi hysbysiad o gadarnhad
- (b) anfon copi o'r cyfarwyddyd at Weinidogion Cymru

*[nid oes angen anfon copi o Gyfarwyddiadau sy'n ymwneud ag ardal gadwraeth yn ei chyfarwydd neu'n rhannol ar gyfer gwaith datblygu a ddisgrifir ar hyn o bryd yn erthygl 4(5) y GPDO presenol]*

#### Hysbysiad o gadarnhad trwy:

- hysbyseb leol, a
- hysbysiad safle, a
- chyflwyno hysbysiad i'r perchennog a'r meddiannydd (nid oes angen rhoi gwybod os nad yw'n ymarferol gwneud hynny ond nid yw'r eithriad yn berthnasol i ymgymerwyr statudol)

#### Cynnwys hysbysiad:

- cynnwys disgrifiad o'r datblygiad a'r ardal y mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud â hi neu'r safle y mae'n ymwneud ag ef, a datganiad o effaith y cyfarwyddyd
- nodi'n benodol y gwneir y cyfarwyddyd o dan erthygl 4(1)
- enwi lle y gellir gweld copi o'r cyfarwyddyd a chopi o'r map yn ystod oriau gwaith arferol.

#### Dyddiad dod i rym:

- y dyddiad pan gyflwynir hysbysiad i'r meddiannydd, neu os nad oes meddiannydd, i'r perchennog, neu
- os nad oes angen rhoi gwybod i'r perchennog, y dyddiad pan gyhoeddir neu yr arddangosir yr hysbysiad gyntaf

Daw'r cyfarwyddyd i ben ar ddiwedd cyfnod o 6 mis a fydd yn dechrau ar y dyddiad dod i rym oni bai y cadarnheir gan yr awdurdod cynllunio lleol cyn diwedd y 6 mis.

#### Cadarnhad o Gyfarwyddyd

- Mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ystyried unrhyw sylwadau a ddaw i law yn ystod y cyfnod hysbysebu.
- Ni ellir cadarnhau hyd nes:
  - (a) o leiaf 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyflwyno neu gyhoeddi'r hysbysiad diwethaf; neu
  - (b) unrhyw gyfnod hirach a bennir gan Weinidogion Cymru.

## Erthygl 4 nad yw'n dod i rym ar unwaith – proses Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer gwneud, amrywio neu ddiddymu Cyfarwyddyd

### Hysbysebu trwy

- hysbyseb leol, a
- hysbysiad safle, a
- chyflwyno hysbysiad i'r perchennog a'r meddiannydd

*Nid oes angen rhoi gwybod i'r perchennog/ meddiannydd os:*

- *Nad yw'n ymarferol cyflwyno i berchennog/meddiannydd unigol*
- *Nad yw hyn yn ymarferol oherwydd nifer y perchnogion*
- *Noder: nid yw'r eithriad hwn yn berthnasol pan fo'r perchennog/ meddiannydd yn ymgymwrwr statudol neu'r Goron*

### Cynnwys Hysbysiad:

- cynnwys disgrifiad o'r datblygiad a'r ardal y mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud â hi neu'r safle y mae'n ymwneud ag ef, a datganiad o effaith y cyfarwyddyd
- nodi y gwneir y cyfarwyddyd o dan erthygl 4
- enwi lle y gellir gweld copi o'r cyfarwyddyd a chopi o'r map yn ystod oriau gwaith arferol
- nodi cyfnod o 21 diwrnod neu fwy, a'r dyddiad pan fydd y cyfnod yn dechrau, i gyflwyno sylwadau ynglŷn â'r cyfarwyddyd i'r awdurdod cynllunio lleol
- nodi'r dyddiad pan ddaw'r cyfarwyddyd i rym. Mae'n rhaid i'r dyddiad fod o leiaf 28 diwrnod ond heb fod yn fwy na 2 flynedd ar ôl y cyfnod o 21 diwrnod.

Anfon copi o'r cyfarwyddyd, hysbysiad a map at Weinidogion Cymru ar yr un diwrnod ag y cyhoeddir neu yr arddangosir hysbysiad o'r cyfarwyddyd gyntaf.

Mae'n rhaid i awdurdod cynllunio lleol, cyhyd ag y bo'n ymarferol ar ôl cadarnhau cyfarwyddyd:

- (i) roi hysbysiad o gadarnhad a dyddiad pan ddaw i rym
- (ii) anfon copi o'r cyfarwyddyd at Weinidogion Cymru.

### Hysbysiad trwy:

- hysbyseb leol, a
- hysbysiad safle, a
- chyflwyno hysbysiad i'r perchennog a'r meddiannydd.

*Nid oes angen rhoi gwybod i'r perchennog/ meddiannydd os:*

- *Nad yw'n ymarferol cyflwyno i berchennog/meddiannydd unigol*
- *Nad yw hyn yn ymarferol oherwydd nifer y perchnogion*
- *Noder: nid yw'r eithriad hwn yn berthnasol pan fo'r perchennog/ meddiannydd yn ymgymwrwr statudol neu'r Goron.*

### Cynnwys Hysbysiad o Gadarnhad:

- cynnwys disgrifiad o'r datblygiad a'r ardal y mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud â hi neu'r safle y mae'n ymwneud ag ef, a datganiad o effaith y cyfarwyddyd
- nodi y gwneir y cyfarwyddyd o dan erthygl 4
- enwi lle y gellir gweld copi o'r cyfarwyddyd a chopi o'r map yn ystod oriau gwaith arferol.

### Cadarnhad o Gyfarwyddyd:

- Mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ystyried unrhyw sylwadau a ddaw i law yn ystod y cyfnod hysbysebu.
- Ni ellir cadarnhau hyd nes:
  - (a) o leiaf 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyflwyno neu gyhoeddi'r hysbysiad diwethaf; neu
  - (b) unrhyw gyfnod hirach a bennir gan Weinidogion Cymru
- Pan fydd wedi'i gadarnhau, daw'r Cyfarwyddyd i rym ar y dyddiad a nodir yng nghynnwys yr hysbysiad.